

# ASTUDIAETH ACHOS

**ENW: CRAIG MESSRUTHER**

**TEITL SWYDD: CYDLYNYDD DATBLYGU**

**CYNNYRCH NEWYDD**

**CYFLOGWR: GRŴP BWYD 2 SISTERS**

**QUALIFICATION: BSC MEWN IECHYD, YMARFER A CHWARAEON**

**YSTOD CYFLOG: £21,000**

## BETH MAE CYDLYNYDD DATBLYGU CYNNYRCH NEWYDD YN EI WNEUD?

Mae Cydlynnydd Datblygu Cynnyrch Newydd yn cefnogi'r prif dîm Datblygu Cynnyrch Newydd i ddatblygu cysyniadau cynnyrch ac i ymchwilio'r opsiynau pecynnu mwyaf addas. Rwyf hefyd yn edrych ar flas, arogl, golwg a theimlad y cynnyrch yn y geg, oes ar y silff a llwybrau cludo (pa mor hir all cynnyrch aros yn ffres ac o fewn dyddiad derbynol wrth gael ei gludo rhwng y gwneuthurwr a'r cwsmer) ar gyfer unrhyw gynnyrch newydd. Rwyf hefyd yn cynorthwyo gyda datblygu unrhyw fanylebau newydd a rhoi cefnogaeth Dechnegol a Gweithredol i'r adrannau gwerthiant a marchnata.

## SUT CAWSOCH CHI'R SWYDD HON?

Dechreuais gyda 2Sisters fel Technegydd Labordy. O'r fan honno, cefais gyfle i symud i'r adran Sicrhau Ansawdd, lle bûm yn cynorthwyo'r Cydlynnydd Datblygu Cynnyrch Newydd oedd yno ar y pryd. Ar ôl blwyddyn, gadawodd y cydlynnydd blaenorol a chefais gyfle i ymgeisio am y swydd.

## BETH YW'R PETH GORAU AM EICH SWYDD?

Y peth gorau am swydd y Cydlynnydd Datblygu Cynnyrch Newydd yw cael rhyddid i ddatblygu cynnyrch nad oes neb arall wedi eu hystyried - a'u gweld yn yr archfarchnadoedd.

## BETH OEDD EICH CYFLOG CYCHWYNNOL?

£21,000 y flwyddyn

## BETH FYDDAI EICH CAR DELFRYDOL?

Bugatti Veyron

gyrfaeodd  
**BLASUS**  
mewn bwyd a diod  
CYMRU

The best thing about the NPD Coordinator job is having the freedom to develop products that nobody else has thought about - and see them in the supermarkets.



DATBLYGU  
CYNNYRCH  
NEWYDD

**TASTYCAREERSWALES.ORG.UK**